# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 22AIN MAI, 2026**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD 15/05/26)

# PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

Cyngor Gwynedd
Cynghorwyr:
Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd

Cyngor Sir Ceredigion
Sedd wag

Cyngor Sir Powys
Cynghorydd Alwyn Evans

Aelod Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Aled Williams | Ysgol Ardudwy |
| David Thorp | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Aled Jones-Griffith | Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru |
| Sedd wag - | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| Delwyn Evans Grwp | Mynediad Meirionnydd |
| I'w gadarnhau | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd |
| Mabon ap Gwynfor | Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd |
| Bill Redfern | Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth |
| Lorraine Simkiss | Rheilffordd Talyllyn |
| Stephen Greig | Rheilffordd Ffestiniog |
| Tom Lewis | Rheolwr Trafnidiaeth Rhanbarthol Canolbarth Cymru |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| James Nicholas | Trafnidiaeth Cymru |
| I'w gadarnhau | Network Rail |
| Rhian Williams | Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd |
| Tomos Davies | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |
| Deb Justice | Swyddog Datblygu - Rheilffyrdd Cymunedol y Cambrian - Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian/PRhC |

# RHAGLEN

**1.** **ETHOL CADEIRYDD**

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2026/27

**2.** **ETHOL IS-GADEIRYDD**

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2026/27

**3.** **YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**4.** **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**5.** **MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6.** **COFNODION** 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21ain o Dachwedd 2025 fel rhai cywir

**7.** **I DDERBYN DIWEDDARIAD GAN GYNRYCHIOLWYR**

I dderbyn diweddariad gan gynrychiolwyr:

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Arall

**8.** **CWESTIYNAU FFURFIOL** 8 - 9

I ystyried ymatebion i gwestiynau a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**21 Tachwedd 2025**

**Cyfarfod Rhithiol**

**Presenoldeb:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd),
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd),
Cyng. Meryl Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Bill Redfern (Cymdeithas Trenau Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)
Lorraine Simkiss, (Rheilffordd Tal-y-llyn)
Linda Taylor (Rheilffordd Ffestiniog)
Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd)
Ffion Williams (Swyddfa Liz Saville Roberts – Llywodraeth DU)
Llio Hughes (Swyddfa Plaid Cymru – Dwyfor Meirionnydd)
James Nicholas (Trafnidiaeth Cymru)
Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

## 1. ETHOL CADEIRYDD

Cynigwyd ac eiliwyd ethol y Cyng. Dewi Owen yn Gadeirydd

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cyng. Dewi Owen yn Gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2025/26**

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Cynigwyd ac eiliwyd ethol y Cyng. Gwynfor Owen yn Is-gadeirydd

**PENDERFYNWYD ail ethol y Cyng. Gwynfor Owen yn Is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2025/26**

## 3. YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Craig ab Iago Cyngor Gwynedd - Aelod Cabinet Amgylchedd), Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd), Cyng. Elfed Wyn ab Elwyn (Cyngor Gwynedd), Cyng. Richard Glyn Roberts (Gwynedd), Cyng. Alwyn Evans (Cyngor Sir Powys), Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig / Aberystwyth), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd), Joyce Watson (Aelod Seneddol Canolbarth a Gorllewin Cymru), Gwyn Rees (Network Rail) a Robert John Jones (Cyngor Gwynedd - Rheolwr Cludiant Addysg)

Cydymdeimlwyd a'r Cyng. Anne Lloyd Jones oedd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28ain o Fawrth 2025 fel rhai cywir

**7. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU**

**Trafnidiaeth Cymru (TrC)**

Croesawyd James Nicholas i'r cyfarfod sydd yn gweithio i Trafnidiaeth Cymru fel Partner Cefnogi Busnes

Adroddwyd bod perfformiad y gwasanaeth wedi bod yn dda dros y cyfnod diwethaf gyda nifer trenau wedi eu canslo yn 0.7% o'r holl wasanaeth ar hyd y Cambrian. Ategodd bod hyn yn cael ei ystyried fel gwasanaeth solet ac yn welliant ym mherfformiad trenau ar amser. Nododd bod y perfformiad yn cael ei fesur drwy reol 3 munud o gyrraedd yr orsaf a mynegodd bod y canran o 75% uwchlaw targed Cymru o 72% sydd yn dderbyniol o ystyried y nifer trenau sydd yn rhedeg.

Yng nghyd-destun amserlen Gaeaf Rheilffordd y Cambrian, mynegwyd bod Trafnidiaeth Cymru wedi penderfynu parhau gwasanaeth y trên olaf a bod hyn yn newyddion calonogol. Amlygodd y bydd Trafnidiaeth Cymru yn cadw llygad ar nifer defnyddwyr ac anogwyd pawb i hyrwyddo defnydd.

Mynegwyd bod profion diogelwch ar y fflyd o drenau newydd Dosbarth 197 wedi eu gweithredu gyda'r gobaith o gyflwyno'r trenau newydd i wasanaeth ym mis Medi 2026, yn dilyn cwblhau gwelliannau ar y platfform mewn rhai gorsafoedd. Ategodd y byddai teithiau prawf pellach yn cael eu cynnal ym mis Ionawr 2026 a hyfforddiant ar gyfer gyrwyr a thocynwyr (Conductors) yn y flwyddyn newydd.

Cafwyd diweddariad bod Network Rail wedi caffael Uned Cyflenwi Cynnal a Chadw newydd i ddisodli nifer o gyfleusterau anaddas yn y depo ym Machynlleth. Bydd y safle yn weithle modern, diogel ac effeithlon fydd yn gallu cefnogi gwasanaethau ar draws y rhanbarth yn llawn.

Tynnwyd sylw at waith gwarchae fydd yn cael ei gwblhau yn ystod Mai 2026 fydd yn debygol o greu ychydig o aflonyddwch i wasanaethau: Y dyddiadau mewn golwg yw 13-17 o Fai rhwng Machynlleth a Pwllheli a 17 – 23 o Fai rhwng Cyffordd Dyfi ac Aberystwyth. Ategwyd mai gwaith paratoi oedd yn cael ei wneud ar gyfer gosod tanciau gwaredu gwastraff toiledau (CET) oddi ar y trenau newydd.

Diolchwyd i James am y diweddariad

Sylwadau a materion yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Croesawu bod gwasanaeth y trên olaf yn cael ei gadw – hyn yn hwb mawr i'r economi leol. Diolchwyd i bawb am yr ymgyrch gadarnhaol.
- Bod pryder ynglŷn â chyhoeddusrwydd Rheilffordd y Cambrian - angen gweithredu ymgyrchoedd marchnata rheolaidd i annog defnydd. Bod angen rhannu negeseuon clir bod gwasanaeth gyda'r nos yn parhau.
- Cais i drefnu cyfarfod arbennig i drafod goblygiadau damwain Tal Erddig 21 Hydref 2024. Er bod adroddiad interim wedi ei gyhoeddi Ebrill 2025, bod disgwyl adroddiad terfynol fydd yn cadarnhau casgliadau ac argymhellion.
- Pryder bod rhan fregus o'r rheilffordd ger Croesffordd Dyfi yn agored i lifogydd all gael eu hatal petai Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu. A'i cynllun tymor hir yw aberthu'r rheilffordd? Angen mwy o wybodaeth
- Bod diffyg agor ffosydd gerllaw'r rheilffordd, yn creu llifogydd
- Cais am wybodaeth ynglŷn â niferoedd defnyddwyr. A yw'r gwasanaeth wedi dychwelyd i ffigyrau cyn covid?
- Bod defnydd da o'r trên a bod cyflwyniad trenau pedwar cerbyd yn yr Haf i'w barhau. Ni ddylai sefyll ar daith fod yn opsiwn.
- Cais am wybodaeth am leoliadau'r Harrington Humps
- Defnydd anghyfreithiol o'r groesfan ym Mhenrhyndeudraeth – angen diweddariad gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Bod y gwasanaeth yn dda iawn, y staff yn gyfeillgar ac yn barod i roi cymorth. Y profiad o deithio ar y trên yn un positif

Mewn ymateb i'r siom nad oedd y fflyd Dosbarth 197 yn cael ei gyflwyno ym mis Mai 2026, nodwyd bod hyn oherwydd yr angen i gynnal teithiau prawf a chynnal hyfforddiant cyn cyflwyno'r fflyd gyfan ar y rheilffordd. Y penderfyniad oedd osgoi misoedd prysur yr Haf.

Mewn ymateb i sylw bod trenau wedi eu canslo yn ystod Storm Claudia a hynny oherwydd llifogydd, er nad oedd y dŵr yn ymddangos yn uchel, a beth felly yw'r lefel dŵr sydd yn arwain at asesu'r effaith cyn canslo trenau, nodwyd nad oedd y penderfyniadau yn cael eu gwneud yn ysgafn. Adroddwyd bod penderfyniadau sydd yn ymwneud a thywydd eithafol yn cael ei wneud ar y cyd gyda gwybodaeth gan y Swyddfa Dywydd a chynlluniau yn cael eu gweithredu yn seiliedig ar anghenion a diogelwch teithwyr. Amlygodd bod rhaid gwneud penderfyniadau ymlaen llaw fel bod modd trefnu teithiau amgen, ond bod pob ymgais yn cael ei wneud i osgoi dim teithio. Ategodd bod modd rhannu'r wybodaeth a arweiniodd at benderfyniadau a waned yn ystod y storm.

Mewn ymateb i awgrym bod angen cynyddu'r defnydd o drenau sydd yn cario llwythi (freight trains), fydd o ganlyniad yn creu incwm ac yn lleihau lorïau cludo llwyth yn achosi difrod i bontydd e.e., Pont Dolgoch, sydd yn creu oedi sylweddol i deithwyr rheilffordd, nodwyd mai Network Rail sy'n gyfrifol am drefniadau llwybrau llwyth ac nad oedd yn ymwybodol o fwriad i atal y gwasanaeth. O ran cynyddu'r gwasanaeth, nodwyd bod defnydd llawn (full capacity) o'r rheilffordd ar hyn o bryd, ac felly anodd fyddai rhedeg mwy o drenau llwythi oni bai bod gwariant sylweddol i greu dolenni pasio; anodd fyddai hefyd rhedeg mwy ar y gwasanaeth yn ystod y nos gan fod Network Rail yn cynnal gwaith cynnal a chadw yn y cyfnod yma.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd cynlluniau i redeg taith trên stem o Fachynlleth i Bwllheli sydd yn atyniad da i ymwelwyr a defnyddwyr y rheilffordd, nodwyd oherwydd defnydd llawn o'r rheilffordd mai anodd fyddai rhedeg trên stem heb effaith ar y gwasanaeth dyddiol. Er hynny, derbyniwyd y sylw a gwnaed addewid i edrych i mewn i hyn a rhannu gwybodaeth gyda'r Pwyllgor.

**Network Rail**

Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolydd o Network Rail yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno diweddariad, ond nodwyd eu parodrwydd i dderbyn sylwadau / adborth am y gwasanaeth.

**Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno diweddariad

**8. CWESTIYNAU FFURFIOL**

Derbyniwyd cwestiynau gan Cyngor Cymuned Criccieth, Cyngor Tref Pwllheli a Chyngor Tref Porthmadog.

Nododd Swyddog Trafnidiaeth Cymru y byddai'n ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorau Lleol, ond ymatebwyd yn fras i'r materion canlynol:

- Lleoli Tram Hanesyddol yng Ngorsaf Pwllheli – bod gwaith adeiladu wedi ei wneud ar y safle blaenorol ac ar hyn o bryd nid oes safle addas wedi ei adnabod.
- Paentio Gorsaf Criccieth - bod peintio'r orsaf yn gyfrifoldeb perchnogion yr adeilad. Bydd angen cysylltu gyda hwy yn gyntaf i weld yr hyn sydd yn bosib.
- Cyhoeddiadau Cymraeg rhwng Porthmadog ac Amwythig - bod cyhoeddiadau dwyieithog ar y trenau, er efallai bod problem dechnegol ar y diwrnod mewn golwg. Yn sicr yn cytuno bod angen cysondeb

Cwestiynau eraill a godwyd yn y cyfarfod:
Croesffordd Dyfi:

- Nid yw'r hysbysfwrdd yn weladwy / amlwg o un platfform i'r llall
- Bod angen edrych ar y gysgodfan a lled y platfform
- Bod ffordd Derwen las i lawr at yr orsaf mewn cyflwr gwael

Cyfarfod nesaf i'w gynnal Mawrth 2026

Holiadur am amser / dyddiad i'w gylchredeg gydag Aelodau / Swyddogion

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:35

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**22 Mai 2026**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**22 May 2026**

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**<br><br>**Mae Cyngor Tref Criccieth yn holi am ddyddiad ar gyfer gwasanaeth gan y trenau newydd.**<br><br>Criccieth Town Council is asking about a date for the new train service | |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL** | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE** | |
| **Oddiwrth / From: Cyngor Tref Criccieth** | |
| **I'w dychwelyd at To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **7fed o Fai / May 7th 2026** |

Mae'r panel llwybrau yn edrych yn dda iawn.

Mae'r amserlen newydd wedi cael ei chyhoeddi, yn weithredol o 16 Mai. Ar gyfer y llinell arfordirol dim ond trenau hyd at Fachynlleth y mae'n eu dangos. Rwyf wedi cael sicrwydd gan TrC y bydd trenau trwodd yn parhau i Birmingham International ond rwy'n credu ei bod hi'n werth codi'r mater yn y cyfarfod a gofyn a allai'r amserlen ddangos y trenau trwodd i ac o Birmingham gan nad yw pob trên yn dod i fyny'r arfordir. Fe wnaethon ni ddal y trên yr wythnos diwethaf a dim ond hyd at Fach yr aeth - roedd yn rhaid i ni fynd ar y trên o Aberystwyth. Roedd ein trên ni eisoes yn llawn dop a dim ond lle i sefyll oedd yno o Fachynlleth! (mewn gwirionedd fe wnaethon ni newid yng Nghyffordd Dyfi felly llwyddon ni i gael sedd!)

Mae'n werth sôn unwaith eto y gall ein platfform wneud gyda rhywfaint o ofal - yn ddelfrydol estyniad platfform ond mae hynny yn annhebygol

Llwybr mynediad i'r orsaf - mae wedi'i wneud mewn mannau eraill.

The routes panel looks very good.

The new timetable has just been published (effective from 16th May.) For the coast line it only shows trains as far as Machynlleth. I have been assured by TfW that through trains will continue to Birmingham International but I think it's worth raising at the meeting and ask whether the timetable could show the through trains to and from Birmingham as not all trains come up the coast. We caught the train last week and it only went as far as Mach - we had to get on the train from Aberystwyth. Ours was already packed and it was standing room only from Machynlleth (actually we changed at Dyfi Junction so managed to get a seat!)

Worth mentioning yet again that our platform could do with some TLC - ideally a platform extension but I guess that's unlikely!

Access path to the station - it's been done elsewhere.